MIRANDA BAILEY

077123456789 – BaileyM@Gmail.com – LinkedIn

Myfyriwr Ffiseg angerddol ac ymroddedig ym Mhrifysgol Caerdydd gyda sgiliau cyfathrebu a chyflwyno cryf, wedi'u datblygu drwy rolau amrywiol sy'n delio â phobl. Profiad amlwg o gydweithio mewn tîm ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, yn ogystal â diddordeb brwd mewn ysgrifennu gwyddonol a'r cyfryngau. Gobeithio cael interniaeth Awdur Gwyddoniaeth yn y BBC i gymhwyso fy sgiliau a chyfrannu at gyfathrebu gwyddoniaeth clir a hygyrch.

## ADDYSG

**BSc Ffiseg,** *Prifysgol Caerdydd* 2023 – presennol

Gradd a ragwelir: 2:1

Modiwlau perthnasol:

- **Cyfathrebu Gwyddoniaeth:** Cynllunio a chyflwyno cyflwyniad ffiseg, defnyddio arddulliau dysgu ar gyfer strategaethau ymgysylltu, gwerthuso heriau cyfathrebu yn y cyfryngau, a chreu gweithgaredd ffiseg, gan gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu a chyflwyno cynnwys.

*Chweched Dosbarth Caerdydd*
2021 - 2023

- **Safon Uwch:** Ffiseg A*, Mathemateg A, Hanes B

*Ysgol Uwchradd Caerdydd* 2016 – 2021

- **TGAU:** 11 x 9 - 7, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth

## PROFIAD PERTHNASOL

**Mentor,** *Rhaglen Fentora Ffiseg, Prifysgol Caerdydd* Mehefin 2024 – Presennol

- Cyflwyno chwe sesiwn mentora rhyngweithiol fesul cylch, ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan ganolbwyntio ar agweddau ehangach ffiseg i ysbrydoli myfyrwyr i ystyried opsiynau ôl-16.
- Cynnig arweiniad personol i fentoreion sy'n ansicr ynghylch mynd ymhellach ar drywydd ffiseg, mynd i'r afael â'u pryderon a'u helpu i feithrin hyder yn eu dewisiadau academaidd.
- Datblygu deunyddiau a strategaethau mentora, gan sicrhau bod y sesiynau'n effeithiol ac yn cyd-fynd â nodau'r rhaglen fentora.

**Cynorthwyydd,** *Prosiect Profiad yn y Dosbarth Prifysgol Caerdydd* Mai 2023 - Mehefin 2023

- Cynorthwyo'r athro dosbarth gyda chynllunio gwersi, paratoi adnoddau, a chynnig cymorth personol i wella canlyniadau dysgu myfyrwyr.
- Cefnogi myfyrwyr ag anghenion dysgu amrywiol, gan roi cymorth wedi'i deilwra i wella dealltwriaeth ac annog twf academaidd.
- Wedi ennill profiad ymarferol mewn rheoli ystafell ddosbarth a thechnegau addysgu, gan ddatblygu sgiliau cyfathrebu, trefnu a datrys problemau cryf.

## SGILIAU

**Cyfathrebu:** Datblygu sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig cryf drwy roi cyflwyniadau i gymheiriaid a chyflawni prosiectau ffurfiol drwy gydol fy ngradd, a oedd yn gofyn am gyfleu canlyniadau gwyddonol cymhleth a sicrhau bod yr wybodaeth yn hygyrch i gynulleidfaoedd amrywiol.

**Cydweithio:** Gweithio'n effeithiol mewn tîm ar brosiect blwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar y Ddaear, gan gydlynu tasgau, rhannu ymchwil, a chyfrannu at adroddiad a chyflwyniad llwyddiannus. Cyfathrebu'n rheolaidd i sicrhau cydweithio effeithlon a chanlyniad terfynol o ansawdd uchel.

**Meddwl yn rhesymegol:** Wedi dangos y gallu i feddwl yn rhesymegol a deall syniadau cymhleth yn ystod prosiect ymchwil ail flwyddyn. Dadansoddi a chyfannu setiau data mawr, gan nodi patrymau a dod i gasgliadau defnyddiol i gefnogi amcanion y prosiect. Rhesymu'n strwythuredig i ddatrys problemau a chyflwyno canfyddiadau mewn modd clir a chryno.

**Sgiliau Trefnu:** Wedi cydbwyso terfynau amser y brifysgol yn llwyddiannus ag ymrwymiadau gwaith a chyfrifoldebau yng Nghymdeithas Chaos, gan reoli nifer o dasgau yn effeithlon. Blaenoriaethu llwyth gwaith, trefnu amserlenni , a bodloni'r holl derfynau amser, gan sicrhau perfformiad uchel ar draws gweithgareddau academaidd, proffesiynol ac allgyrsiol.

## PROFIADAU ERAILL

**Swyddog Marchnata a Chyfathrebu,** *Cymdeithas Chaos, Prifysgol Caerdydd* Medi 2024 – Presennol

- Aelod myfyriwr presennol o Gymdeithas Myfyrwyr Ffiseg Prifysgol Caerdydd, *Cymdeithas Chaos*.
- Datblygu strategaethau marchnata i godi ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o fentrau a digwyddiadau presennol y gymdeithas, yn ogystal â chodi proffil y gymdeithas i ddarpar aelodau.
- Cymryd rhan weithredol mewn trefnu a chynnal digwyddiadau gyda'r nod o hybu diddordeb mewn ffiseg, gan gynnwys darlithoedd gwadd, gweithdai, a digwyddiadau rhwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant.

**Cynorthwyydd Gwasanaeth Cwsmer,** *Sainsbury's, Caerdydd* Medi 2023 – Presennol

- Ymateb yn rhagweithiol i gyfartaledd o 20+ o ymholiadau cwsmeriaid fesul shifft, yn amrywio o leoli cynnyrch i gwynion cwsmeriaid, gan gyfeirio gwsmeriaid yn effeithiol yn ddibynnol ar eu hymholiad
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm rheolaidd, gan gyfrannu syniadau ar gyfer gwella gwasanaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd y siop.
- Trin a sganio nwyddau bwyd yn un o brif siopau manwerthu Caerdydd a phrosesu 100+ o drafodion fesul shifft ar gyfartaledd, gan gynnal lefel uchel o gywirdeb.

## AELODAETH BROFFESIYNOL

**Aelod Myfyriwr,** *y Sefydliad Ffiseg* 2024 - presennol

- Cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu proffesiynol a digwyddiadau rhwydweithio yn y gymuned ffiseg.
- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a'r tueddiadau diweddaraf mewn ffiseg drwy gyhoeddiadau, cylchlythyrau a phlatfformau ar-lein gan y Sefydliad Ffiseg, sy'n cyfoethogi fy nhaith academaidd a phroffesiynol.

## DIDDORDEBAU

**Codio:** Datblygu sgiliau mewn amrywiaeth o ieithoedd a thechnolegau rhaglennu gan gynnwys Python, wrth weithio ar sawl prosiect personol, yn amrywio o raglenni gwe i offer awtomeiddio. Ymgymryd â chyrsiau ar-lein gyda'r Sefydliad Codio a'r Brifysgol Agored i gynyddu dealltwriaeth.

*Geirdaon ar gael ar gais*